

Gofal Brys ac Mewn Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Caerdydd a'r Fro

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4460A2024

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG a llywodraeth leol, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny wrth ddefnyddio'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw ymbarél ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os derbynir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
Negeseuon allweddol	5
Argymhellion	6
Adroddiad manwl	
Beth yw maint yr her?	9
Beth sy'n effeithio ar lif effeithiol ac amserol cleifion allan o'r ysbyty	14
Pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd?	22
Beth yn fwy ellir ei wneud?	29
Atodiadau	
Atodiad 1 – dulliau archwilio	31
Atodiad 2 – rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion	34
Atodiad 3 – perfformiad gofal brys ac mewn argyfwng	36
Atodiad 4 – arosiadau am asesiadau gofal cymdeithasol a phecynnau gofal	42
Atodiad 5 – ymateb sefydliadol ar y cyd i'r argymhellion archwilio	45

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Unwaith yr ystyrir bod claf yn ddigon iach yn feddygol neu'n glinigol i adael yr ysbyty (y cyfeirir ato hefyd fel ffit yn feddygol neu ffit yn glinigol) mae rhyddhau'r claf hwnnw'n amserol i'r lleoliad cywir ar gyfer ei anghenion parhaus yn allweddol. Mae symud cleifion yn amserol, yn effeithiol ac yn effeithlon allan o leoliad ysbyty aciwt yn dwyn manteision pwysig i ofal a phrofiad cleifion yn ogystal ag i'r modd y defnyddir adnoddau'r GIG.
- 2 Pan fo'r broses ryddhau'n cymryd yn hwy nag y dylai, gall fod goblygiadau sylweddol i'r claf o ran ei adferiad, ei adsefydliad a'i annibyniaeth. Bydd achosion o oedi cyn rhyddhau hefyd yn dwyn goblygiadau ar gyfer cleifion eraill sy'n dod i mewn i'r system gofal brys ac mewn argyfwng¹ y mae arnynt angen gwely mewn ysbyty. Mae "llif" cleifion gwael yn creu tagfeydd yn y system sy'n cyfrannu at broblemau tra hysbys megis adrannau achosion brys gorlawn ac anallu i sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo'n amserol o ofal criwiau ambiwlansys.
- 3 Yn wreiddiol, roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys gwaith yn ei gynlluniau archwilio lleol yn 2021 i archwilio materion system gyfan sy'n effeithio ar wasanaethau gofal brys ac mewn argyfwng, gan gynnwys rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Arweiniodd pandemig COVID-19 at ohirio'r gwaith hwn a'i gynnwys drachefn yng nghynlluniau archwilio 2023. Mae ein gwaith wedi ceisio archwilio a oes gan fyrdau iechyd ac awdurdodau lleol drefniadau effeithiol i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd amserol. Caiff y dull a fabwysiadwyd gennym i wneud ein gwaith ei ddisgrifio yn **Atodiad 1**.
- 4 Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen ehangach o waith y mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n ei chyflawni mewn perthynas â gwasanaethau gofal brys ac mewn argyfwng yng Nghymru. Rydym hefyd yn archwilio'r trefniadau er mwyn helpu i reoli'r galw am ofal brys ac mewn argyfwng, ac i gyfeirio cleifion at y lleoliad gofal sydd fwyaf priodol i'w hanghenion. Byddwn yn adrodd ar wahân ar ganfyddiadau'r gwaith hwnnw yn 2024.
- 5 Nod gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ar ofal brys ac mewn argyfwng yw helpu i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Yn benodol, nod y gwaith hwn yw argyhoeddi'r Archwilydd Cyffredinol bod gan gyrrf y GIG ac awdurdodau lleol drefniadau priodol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarparus, fel sy'n ofynnol yn ôl adrannau 17 a 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o adolygiad yr

¹ Mae gofal brys ac mewn argyfwng yn disgrifio unrhyw ofal heb ei drefnu, brys ac mewn argyfwng a ddarperir gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r system gofal heb ei drefnu'n gymhleth gyda nifer o sefydliadau'n rhan o ddarparu gwasanaethau ac mae'n ymdrin â phobl ag afiechyd aciwt, sy'n agored i niwed ac mewn gofid y mae arnynt angen cymorth brys.

Archwilydd Cyffredinol o'r trefniadau i ategu llif effeithiol allan o'r ysbyty yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro (y rhanbarth). Mae'r rhanbarth yn cwmpasu:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd)
- Cyngor Dinas a Sir Caerdydd;
- Cyngor Bro Morgannwg.

- 6 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym hefyd wedi ystyried cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd yn erbyn argymhellion blaenorol a wnaed yn ein hadroddiad yn 2017 ar gynllunio i ryddhau cleifion. Mae ein canfyddiadau o'r gwaith hwn wedi'u nodi mewn adroddiad ar wahân i'r Bwrdd Iechyd.

Negeseuon allweddol

- 7 Ar y cyfan, canfuom **er bod nifer y cleifion sy'n profi oedi cyn eu rhyddhau yn parhau i fod yn bryder, bu gwelliannau nodedig o ran trosglwyddo ambiwlansys a pherfformiad amseroedd aros adrannau achosion brys yn y rhanbarth. Fodd bynnag, mae llif cleifion mewn ysbytai yn effeithio'n negyddol ar lwybrau gofal eraill, a bydd angen i bartneriaid rhanbarthol gynnal eu hymrwymiad ar y cyd i gael y gwelliannau sydd eu hangen.**
- 8 Yn unol â thueddiadau ledled Cymru, mae nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Rhwng Ebrill 2023 a Chwefror 2024, ar gyfartaledd roedd 194 o gleifion a oedd wedi'u hoptimeiddio'n glinigol bob mis yr oedd oedi cyn eu rhyddhau, a chwblhau asesiadau gofal cymdeithasol a dyrannu gweithiwr cymdeithasol oedd prif achosion yr oedi. Er mai dyma'r sefyllfa orau yng Nghymru, ac eithrio Powys, mae'n parhau i fod yn destun pryder. Ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Chwefror 2024, cyfanswm nifer y diwrnodau gwely a gollwyd oherwydd oedi cyn rhyddhau oedd 50,668 gyda chost blwyddyn lawn yn cyfateb i £27.637 miliwn ar gyfer y Bwrdd Iechyd.
- 9 Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael llwyddiant sylweddol o ran atal oedi cyn rhyddhau cleifion rhag effeithio ar lif cleifion o fewn ei system gofal brys a gofal mewn argyfwng, gyda pherfformiad ar draws metrigau ar gyfer amseroedd aros mewn adrannau achosion brys a throsglwyddiadau ambiwlans yn gyson naill ai'r gorau yng Nghymru neu'n uwch na pherfformiad cyfartalog Cymru gyfan. Ym mis Ionawr 2024, roedd oriau ambiwlans a gollwyd yn cyfrif am 834 awr, o gymharu â 2,722 ym mis Awst 2022. Fodd bynnag, mae data'n dangos y gallai'r ymrwymiad i wella amseroedd aros ar ddau ben yr ysbyty o fewn y gwasanaethau brys ac mewn argyfwng fod yn effeithio ar lif o fewn yr ysbyty. Mae data'n dangos bod mynediad i welyau ar wardiau arbenigol, megis strôc, yn anghyson a bod mwy o apwyntiadau gofal wedi'u trefnu (wedi'u cynllunio) yn cael eu canslo oherwydd y diffyg gwelyau sydd ar gael yn yr ysbyty.
- 10 Mae sawl ffactor yn cyfrannu at oedi cyn rhyddhau cleifion. Mae gan y rhanbarth boblogaeth sy'n heneiddio gyda chynnydd cydberthynol yn y bobl sy'n byw gyda chyflyrau cymhleth, hirdymor gan gynnwys problemau iechyd meddwl. Mae heriau

gweithlu hefyd o fewn y sector gofal cymdeithasol, sy'n arwain at oedi wrth ddyrannu gweithwyr cymdeithasol a chwblhau asesiadau gofal cymdeithasol. Nododd ein gwaith hefyd wendidau yn yr ymarfer a dogfennaeth cynllunio rhyddhau ac angen i gynnwys y model Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA) yn ei bolisiau. Fodd bynnag, mae'r rhanbarth yn llwyddo i ateb y galw am gymorth gofal, a gall ddarparu gofal yn unol â'i ymrwymiad i ddarparu gofal cartref dros ddarpariaeth cartrefi gofal. Dyma rywbeth y mae llawer o ranbarthau eraill yng Nghymru yn ei chael yn heriol.

- 11 Mae gwella llif cleifion yn nodwedd allweddol o gynlluniau ar draws y partneriaid sy'n cyd-fynd â chwe nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng². Mae partneriaid yn cydweithio'n effeithiol, yn strategol ac yn weithredol, i wella llif cleifion. Mae adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio i wella cynlluniau rhyddhau cleifion gyda thystiolaeth o werthusiad o effaith prosiectau a mentrau. Mae perfformiad yn cael ei fonitro'n rheolaidd o fewn sefydliadau unigol a chyda phartneriaid, ond canfuom fod lle i gyfleoedd pellach i archwilio datrysiadau system gyfan, ymgorffori dysgu a chanolbwyntio ar effaith gweithgarwch o fewn adroddiadau perfformiad a chynnydd.

Argymhellion

- 12 Rhoddir manylion yr argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Bydd ymateb cyfunol y rheolwyr i'r argymhellion hyn gan y cyrff statudol a gafodd eu cynnwys yn yr adolygiad hwn yn cael ei grynhoi yn **Atodiad 4** unwaith y bydd yr argymhellion wedi cael eu hystyried gan y pwyllgorau perthnasol.

Arddangosyn 1: argymhellion

Argymhellion

Mynd i'r afael â bylchau allweddol mewn capasiti gofal cymdeithasol

- A1 Er mwyn helpu i lywio trafodaethau ynghylch rhyddhau cleifion, dylai'r awdurdodau lleol nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chapasiti gofal cymdeithasol o ran darparu gwasanaethau ar lefel leol a rhanbarthol, gan gynnwys yr effaith ar lif cleifion o'r ysbyty.

² Ceir rhagor o wybodaeth am chwe nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diweddariad-ar-y-rhaglen-chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-gofal-mewn-argyfwng>

Argymhellion

Gwella cydymffurfiaeth â pholisïau a chanllawiau

- A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd, gan weithio gydag awdurdodau lleol, ddiweddarau ei bolisi rhyddhau cleifion a'i bolisïau cysylltiedig, gan gynnwys y polisi dewis llety, i egluro i'r holl staff sut y dylai'r broses cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion weithio ar draws y rhanbarth. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023, gan nodi rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir, a disgwyliadau, ac adlewyrchu'r model Rhyddhau i Adfer yna Asesu. Dylai'r broses ar gyfer diweddarau'r polisi gynnwys cleifion a gofalmwr.
- A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu cylch archwilio rheolaidd i asesu effeithiolrwydd a chysondeb y ffordd y cymhwysir y polisi rhyddhau a'r rhaglenni hyfforddi cysylltiedig.

Gwella ansawdd gwybodaeth

- A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd wella'r drefn cadw cofnodion drwy:
- 4.1 sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion yn deall yn llawn bwysigrwydd dogfennu gwybodaeth gynhwysfawr mewn nodiadau achos cleifion i gefnogi cynlluniau rhyddhau effeithiol; a
 - 4.2 sefydlu rhaglen o archwiliadau nodiadau achos yn canolbwyntio ar ansawdd cadw cofnodion.

Rhyddhau cleifion dros y penwythnos gymaint â phosibl

- A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd, mewn partneriaeth â'i awdurdodau lleol, sicrhau bod ganddo'r trefniadau angenrheidiol ar waith i sefydlu a darparu dull saith diwrnod o weithio'r wythnos o ryddhau cleifion o'r ysbyty er mwyn lleihau arosiadau diangen yn yr ysbyty.

Cynyddu eglurder y canlyniadau a fwriedir ar gyfer cynllun gweithredu llwybrau gofal

- A6 Dylai'r rhanbarth sicrhau bod ei gynllun gweithredu ar gyfer llwybrau gofal yn gliriach ynghylch y canlyniadau a fwriedir o'r camau gweithredu y mae wedi'u nodi. Dylai hefyd gynnal adolygiad rheolaidd i asesu a yw canlyniadau'n cael eu cyflawni.

Argymhellion

Gwneud y defnydd gorau o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

- A7 Er mwyn helpu i lywio penderfyniadau a thrafodaethau, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fynediad arferol at ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n berthnasol i lif effeithiol ac amserol allan o'r ysbyty, gan gynnwys perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng o fewn y Bwrdd Iechyd, a rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a phhecynnau gofal

Adroddiad manwl


Beth yw maint yr her?

- 13 Mae'r adran hon yn nodi maint yr her y mae'r rhanbarth yn ei hwynebu o ran oedi cyn rhyddhau cleifion, a'r effaith ddilynol ar lif cleifion a phrofiad y claf.
- 14 Canfuom fod **y rhanbarth, yn gyffredinol, yn perfformio'n well na sefyllfa Cymru gyfan ar gyfer mesurau sy'n ymwneud â gofal heb ei drefnu a chynlluniau rhyddhau, er y gallai'r ffocws hwn fod yn effeithio ar ei allu i symud cleifion i'r lleoliad mwyaf priodol yn yr ysbyty.**

Oedi cyn rhyddhau

- 15 Canfuom fod **gan y rhanbarth gyfraddau cymharol is o oedi cyn rhyddhau cleifion, gyda thuedd o welliant yn 2023-24, er bod y rhai sy'n profi oedi yn aros yn hirach na chyfartaledd Cymru gyfan.**
- 16 Mae oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty wedi bod yn broblem hirsefydlog i gyrff yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU. Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod y mater hwn wedi gwaethygu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- 17 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi nifer yr achosion o oedi cyn rhyddhau a brofwyd gan y Bwrdd Iechyd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Chwefror 2024, o gymharu â chyrff eraill y GIG ledled Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â chleifion yr ystyrir eu bod wedi'u hoptimeiddio'n glinigol ond sy'n aros mewn gwely ysbyty 48 awr ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud eu bod yn ddigon iach i adael yr ysbyty. Fel y gwelir yn yr arddangosyn, mae cyfradd yr oedi cyn rhyddhau cleifion ymhell islaw cyfartaledd Cymru gyfan a'r isaf am chwech o'r 11 mis a ddangosir.

Arddangosyn 2: nifer yr achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Ebrill 2023 – Chwefror 2024)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 18 Ers y pandemig, mae'r ffordd y caiff achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion eu mesur wedi newid. Ni adroddwyd yn ffurfiol ar unrhyw ddata ar oedi cyn rhyddhau cleifion rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2023. Cyn y pandemig, adroddid ar achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion fel achosion o 'oedi cyn trosglwyddo gofal' a oedd yn cael eu diffinio fel y rhai sy'n parhau i feddiannu gwely ar ôl y dyddiad pan ddatgenir bod y claf yn barod i symud ymlaen at gam nesaf eu gofal. Mae hyn yn cymharu â'r dull cyfredol o gyfrif achosion o oedi sy'n canolbwyntio ar y rhai sy'n dal i fod mewn gwely yn yr ysbyty 48 awr ar ôl cael eu nodi fel rhai sydd wedi'u hoptimeiddio'n glinigol.
- 19 Er nad yw'n gymhariaeth uniongyrchol, ym mis Chwefror 2020 adroddodd y Bwrdd lechyd ar 30 o achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd mis Chwefror 2024 o 238 o achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion yn cyfateb i 13.7% o gyfanswm capasiti gwelyau'r Bwrdd lechyd³. Er ei fod yn arwyddocaol, dyma'r ganran isaf yng Nghymru, gyda chyfartaledd Cymru gyfan yn 17.9% (yn amrywio rhwng 13.7% a 31.3%).

³ Yn seiliedig ar ddata ynghylch argaeledd gwelyau cyffredinol ac aciwt ym mis Gorffennaf 2023, gwefan StatsCymru

- 20 Caiff y pum prif reswm dros achosion o oedi yn y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan eu nodi yn **Arddangosyn 3**, a'r rhesymau mwyaf cyffredin oedd aros am asesiad gofal cymdeithasol ac aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu, y mae'r ddau yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Ceir rhestr lawn o resymau dros oedi yn **Atodiad 2**.

Arddangosyn 3: y pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion (Chwefror 2024)

Rheswm dros yr oedi	Canran lle bu oedi	Cyfartaledd Cymru Gyfan
Yn aros am asesiad gofal cymdeithasol	31.5	15.7
Yn aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu	15.5	8.5
Yn aros am gwblhau trefniadau cyn lleoli	10.9	3.5
Yn aros am asesiad ar y cyd	4.6	9.0
Yn aros i asesiad clinigol gael ei gwblhau (nyrsio/gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd/meddygol/fferylliaeth)	4.2	10.3

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 21 Mae'r data hwn hefyd yn cael ei ddadansoddi i lefel awdurdod lleol, a ddangosir yn **Atodiad 2**. Mae data'n dangos bod heriau cyson ar draws y rhanbarth, a'r disgwyl am gwblhau asesiad yn ôl dyraniad gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol yw'r achosion mwyaf o oedi yn ardaloedd y ddau awdurdod lleol, gan gyfrif am 46% a 51% o'r holl oedi yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn y drefn honno.
- 22 Mae'r diwrnodau gwely a gollwyd oherwydd oedi cyn rhyddhau cleifion yn achos aneffeithlonrwydd ariannol sylweddol ledled Cymru. Ar gyfer y rhanbarth, dangosodd data a adroddwyd ym mis Chwefror 2024 fod cyfanswm nifer y cleifion a oedd yn destun oedi ar gyfer y mis hwnnw yn cyfrif am 5,460 o ddiwrnodau gwely. Yn seiliedig ar gost nodweddiadol o £500 fesul diwrnod gwely,⁴ mae hyn yn cyfateb i gostau o tua £2.730 miliwn. Collwyd cyfanswm o 50,668 o ddiwrnodau gwely ar gyfer y cyfnod Ebrill 2023 – Chwefror 2024. Mae hyn gyfwerth â £27.637 miliwn ar gyfer y flwyddyn.

⁴ Yn seiliedig ar £500 y diwrnod gwely fel a nodwyd ym mhapur briffio Confederasiwn y GIG ar gyfer y datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y sefyllfa ariannol yn 2023-24

Effaith ar lif cleifion

- 23 Canfuom er bod perfformiad y Bwrdd Iechyd yn cymharu'n ffafriol â'r rhan fwyaf o fetrigau perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng, mae dangosyddion bod llif ymlaen drwy'r ysbyty yn heriol sy'n effeithio ar dderbyn cleifion strôc ac yn arwain at ganslo mwy o driniaethau gofal wedi'i gynllunio.
- 24 Mae achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty'n dwyn canlyniadau ar gyfer llif cleifion ac, yn enwedig, gallu cleifion i gael mynediad at wasanaethau pan fo'u hangen arnynt. Mae'r ffaith bod gwelyau'n cael eu defnyddio gan gleifion nad oes mo'u hangen arnynt mwyach yn golygu nad ydynt ar gael i'r rhai y mae eu hangen arnynt gan arwain, er enghraifft, at arosiadau hwy mewn adrannau achosion brys. Mae hyn yn ei dro'n effeithio ar y gallu i griwiau ambiwlansys drosglwyddo cleifion ac ymateb i alwadau 999 yn y gymuned.
- 25 Mae **Atodiad 3** yn nodi perfformiad y rhanbarth ar draws ystod o ddangosyddion perfformiad gofal brys ac mewn argyfwng o'i gymharu â'r sefyllfa ledled Cymru ers mis Ebrill 2022. I grynhoi:
- mae canran y galwadau coch i'r gwasanaeth ambiwlans yr ymatebwyd iddynt o fewn 8 munud wedi bod yn gyson well na'r sefyllfa ledled Cymru gyfan, ond nid yw wedi cyrraedd y targed cenedlaethol o 65% ers mis Gorffennaf 2022 (**Arddangosyn 15**).
 - mae'r amser canolrifol a gymerir i ymateb i alwadau ambr wedi bod yn uwch na'r targed o 20 munud. Fodd bynnag, mae'n gyson well na chyfartaledd Cymru gyfan, ac eithrio Ionawr 2024 (**Arddangosyn 16**).
 - mae canran y trosglwyddiadau o ambiwlansys o fewn 15 munud yn unol â chyfartaledd Cymru gyfan, ond yn llawer is na'r targed cenedlaethol o 100% ar tua 20% (**Arddangosyn 17**).
 - mae canran y trosglwyddiadau o ambiwlansys sy'n cymryd dros un awr yn adran achosion brys mawr y Bwrdd Iechyd wedi gwella'n ddramatig, gan ostwng o tua 50% ym mis Awst 2022 i 11% ym mis Ionawr 2024. Dyma'r sefyllfa orau yng Nghymru o bell ffordd, er ei bod yn parhau i fod yn uwch na'r targed cenedlaethol o sero (**Arddangosyn 18**)⁵.
 - mae cyfanswm yr oriau a gollwyd yn dilyn hysbysiad i drosglwyddo a gymerodd dros 15 munud yn sylweddol well na chyfartaledd Cymru gyfan, gan ostwng yn raddol o 2,722 ym mis Awst 2022 i 834 awr ym mis Ionawr 2024 (**Arddangosyn 19**).
 - unwaith y mae'r claf yn yr adran achosion brys, mae'r amser canolrifol rhwng cyrraedd a brysennu wedi lleihau ac mae'n sylweddol well na'r sefyllfa ar gyfer Cymru gyfan ar 19 munud ym mis Ionawr 2024 (**Arddangosyn 20**).

⁵ Cyflwynwyd y targed ar gyfer dim trosglwyddo cleifion i gymryd mwy nag awr fel metrig ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o fewn fframwaith cynllunio'r GIG yn 2023-24 fel rhan o waith i geisio lleihau'r duedd gynyddol o oriau a gollwyd.

- mae'r amser canolrifol rhwng cyrraedd a chael asesiad gan uwch-benderfynwr clinigol wedi bod yn well na chyfartaledd Cymru gyfan, gydag un eithriad yn 2022, ac mae wedi gwella o 105 munud ym mis Ebrill 2022 i 59 munud ym mis Ionawr 2024 (**Arddangosyn 21**).
 - mae canran y cleifion a welir o fewn 4 awr mewn adran achosion brys mawr wedi amrywio ers mis Ebrill 2022 rhwng 58% a 75%. Mae perfformiad yn well na chyfartaledd Cymru gyfan ond yn parhau i fod yn is na'r targed cenedlaethol o 95% (**Arddangosyn 22**).
 - mae canran y cleifion a welwyd o fewn 12 awr mewn adran achosion brys mawr yn well na sefyllfa Cymru gyfan: ym mis Ionawr 2024, roedd y ffigurau hyn yn 92%, ychydig yn llai na'r targed cenedlaethol o 100% (**Arddangosyn 23**).
 - mae cyfran y dyddiau gwely a gronnir gan gleifion â hyd arhosiad o fwy na 21 diwrnod yn unol â chyfartaledd Cymru gyfan rhwng Ebrill 2022 ac Ebrill 2023, sef rhwng 55% a 65% (**Arddangosyn 24**).
- 26 Mae cyfanswm capasiti gwelyau'r Bwrdd Iechyd wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chyfanswm o 1,779 ar gael yn 2022-23, gydag ychydig llai na hanner wedi'u dyrannu i feddygaeth aciwt (903). Mae defnydd gwelyau yn y gwelyau meddygaeth aciwt wedi bod ar 89.6%, o gymharu â lefel optimaidd o 85%. Mae'r Bwrdd Iechyd yn un o dri bwrdd iechyd nad oes ganddynt welyau ysbyty cymunedol a reolir gan feddygon teulu. Fodd bynnag, mae ganddo fynediad at welyau cam-i-lawr mewn ysbytai cymunedol y Bwrdd Iechyd yn ogystal â gwelyau cam-i-lawr mewn cartrefi gofal a gomisiynir gan yr Awdurdod Lleol.
- 27 Mae pwysau ar welyau sydd ar gael oherwydd oedi cyn rhyddhau cleifion yn golygu nad yw byrddau iechyd bob amser yn gallu sicrhau bod cleifion yn cael eu lleoli ar y wardiau gorau ar gyfer eu hanghenion clinigol. Er enghraifft, bydd byrddau iechyd fel arfer yn cadw gwelyau gwag ar unedau strôc i sicrhau bod cleifion strôc yn cael mynediad cyflym ac uniongyrchol, gan eu galluogi i gael mynediad at arbenigwyr ac offer strôc.
- 28 Mae byrddau iechyd yn gynyddol wedi profi anawsterau derbyn cleifion strôc i ward strôc, gan fod problemau gyda llif cleifion a'r gwelyau sydd ar gael golygu y bu angen y gwelyau hyn ar gyfer cleifion nad ydynt wedi cael strôc. Rhwng Ebrill 2022 ac Ebrill 2023, roedd perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gyfnewidiol gyda chanran y cleifion strôc â mynediad uniongyrchol i ward strôc o fewn pedair awr yn amrywio rhwng isafbwynt o 3.3% ac uchafbwynt o 54%. Ers mis Ebrill 2023, mae perfformiad wedi gwella, gyda pherfformiad yn amrywio rhwng uchafbwynt o 72.5% ym mis Mehefin 2023, ac isafbwynt o 43.5% ym mis Ebrill 2024.
- 29 Yn ystod 2022-23, cafodd 456 o dderbyniadau gofal wedi'u cynllunio eu canslo oherwydd nad oedd gwely ward ar gael yn y Bwrdd Iechyd. Ar gyfer y cyfnod 2023-24 hyd at a chan gynnwys Chwefror 2024, cafodd 579 o dderbyniadau gofal wedi'u cynllunio eu canslo. Mae hyn yn cymharu â 413 ar gyfer yr un cyfnod yn 2022-23. Mae'r lefel hon o gansladau'n cynrychioli profiad gwael i gleifion ac yn creu perygl y bydd cyflyrau cleifion gofal wedi'i gynllunio'n gwaethygu ymhellach wrth iddynt aros i'w triniaeth gael ei haildrefnu.

Beth sy'n effeithio ar lif effeithiol ac amserol cleifion allan o'r ysbyty

- 30 Mae'r adran hon yn nodi'r materion sy'n effeithio ar gynlluniau rhyddhau effeithiol a llif amserol cleifion allan o ysbytai ar draws y rhanbarth.
- 31 Canfuom fod **y rhanbarth i bob pwrpas yn cefnogi pobl i ddychwelyd adref, ond mae'n wynebu heriau oherwydd materion yn ymwneud â chapasiti gofal cymdeithasol, defnydd anghyson o bolisiau rhyddhau, a galw cynyddol gan boblogaeth sy'n heneiddio.**

Maint a chymhlethdod y galw

- 32 Canfuom fod **demograffeg oedran sy'n codi ac anghenion iechyd corfforol a meddyliol cynyddol yn gosod galwadau cynyddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rhanbarthol.**
- 33 Yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro, roedd pobl rhwng 65 ac 84 oed yn cyfrif am 14% o'r boblogaeth erbyn 2019, ond disgwylir i'r ffigur hwnnw gynyddu i 16.2% erbyn 2039.⁶ Wrth i bobl fyw'n hirach, mae cynnydd cydberthynol yn nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor lluosog ac anghenion iechyd cymhleth, ac y bydd angen iddynt felly ddibynnu ar wasanaethau iechyd a gofal am gymorth.
- 34 Gwaethygodd COVID-19 y cynnydd hwn mewn galw cymhleth. Yn ystod y pandemig, gostyngodd y galw am ofal mewn adrannau achosion brys yn gyflym wrth i bobl ddilyn cyngor cenedlaethol i o fanteisio ar ofal brys ac mewn argyfwng dim ond os oedd ei gwir angen, er mwyn amddiffyn gwasanaethau rheng flaen craidd. Yn ogystal, roedd teuluoedd yn darparu gofal a chymorth ychwanegol i atal eu hanwyliaid rhag cael eu derbyn i'r ysbyty neu ofal hirdymor oherwydd yr ofn y gallent ddal COVID-19.
- 35 Yn ôl data a gasglwyd gan y rhanbarth, yn 2017-18, dywedodd 71.6% o bobl hŷn sy'n byw yn y rhanbarth fod eu llesiant yn 'dda' neu'n 'dda iawn' cyn y pandemig COVID-19. Mae hyn wedi gostwng ers hynny ac yn 2022 roedd yn 52.8%. Yn ogystal, dim ond 47.7% o bobl hŷn yng Nghaerdydd a 50.2% ym Mro Morgannwg ddywedodd eu bod yn byw heb salwch cyfyngus hirdymor. Mae hyn, yn anochel, yn golygu y bydd mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau iechyd a chymdeithasol y rhanbarth nag yn y blynyddoedd blaenorol, gan gynnwys gwasanaethau brys a gofal brys. Cyfeiriodd y rhai y cawsom sgwrs â nhw yn ystod y gwaith maes at gynnydd penodol yn y galw iechyd meddwl ers dechrau'r pandemig, ac mae data'n dangos y rhagwelir y bydd nifer yr oedolion hŷn sy'n byw â dementia difrifol yn y rhanbarth yn dyblu erbyn 2040.⁷

⁶ Cynllun Ardal ar y Cyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro 2023-28 [Gwybodaeth – BPRhCAF](#)

⁷ Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Caerdydd a'r Fro, 2022

Capasiti'r gweithlu

- 36 Canfuom y bu lefelau uchel o swyddi gwag mewn gofal cymdeithasol sydd wedi effeithio ar oedi cyn rhyddhau cleifion.
- 37 Ledled Cymru, mae capasiti'r staff sy'n ymwneud â chynlluniau i ryddhau cleifion yn ymestyn yn gynyddol oherwydd ffactorau megis cyfraddau uchel o swyddi gwag a chyfraddau absenoldeb heb ei gynllunio. Mae niferoedd llai o staff yn arwain naill ai at ddibyniaeth ar staff asiantaeth a/neu at lai o staff parhaol yn ceisio rheoli cleifion cynyddol gymhleth a threfnu'r gofal parhaus sydd ei angen arnynt ar gyfer eu rhyddhau. Mae defnydd uchel o staff asiantaeth yn anochel yn effeithio ar barhad o fewn y gweithlu.
- 38 Yn y rhanbarth, mae problemau capasiti wedi bod yn fwy ym maes gofal cymdeithasol nag yn y gwasanaethau iechyd. Ym mis Mawrth 2024, roedd y Bwrdd Iechyd yn nodi mai ychydig iawn o swyddi gwag fel canran o gyfanswm ei sefydliad, gyda swyddi gwag nyrsio a bydwreigiaeth yn 2.4%, o gymharu â 6.5% ar lefel Cymru gyfan, a dim swyddi gwag ar gyfer staff meddygol. Roedd y gyfradd absenoldeb heb ei gynllunio ar gyfer y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2024 yn cydfynd yn fras â sefyllfa Cymru gyfan, sef 5.9%, gyda'r gyfradd absenoldeb ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth yn 6.9%, ychydig yn is na sefyllfa Cymru gyfan o 7.1%. Roedd y gyfradd absenoldeb meddygol heb ei gynllunio yn isel ar 1.4% o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 2.2%. Roedd y defnydd o staff asiantaeth yn cyfrif am 0.91% o gyfanswm bil cyflogau'r Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2024, wedi gostwng o 3.8% ym mis Mawrth 2023.
- 39 Yn ôl y data diweddaraf a gyhoeddwyd yn gyhoeddus, ym mis Mehefin 2023, roedd Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg yn nodi nifer uchel o swyddi gwag yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, gyda'r gyfradd uchaf o swyddi gwag yng Nghaerdydd, sef 39%.⁸ Ym mis Chwefror 2024, roedd y gyfradd absenoldeb heb ei gynllunio yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn uwch na sefyllfa Cymru gyfan yng Nghaerdydd, ond yn is ym Mro Morgannwg, fel y dangosir yn **Arddangosyn 4**. Rydym wedi gweld data mwy diweddar sy'n dangos bod nifer y swyddi gwag wedi lleihau ym Mro Morgannwg, wedi'u hategu gan gytundebau hirdymor â contractau asiantaeth. Nid adroddwyd y data ar ddefnydd asiantaethau ers mis Mehefin 2023, ond hyd at y cyfnod hwnnw, roedd y defnydd o staff asiantaeth yng Nghyngor Caerdydd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan ar 11% (o gymharu â 2% ledled Cymru). Roedd y defnydd o staff asiantaeth ym Mro Morgannwg ar 3%.

⁸ Caerdydd 39%, Bro Morgannwg 21%. Nid oes unrhyw ddata ar gael ers mis Mehefin 2023.

Arddangosyn 4: canran yr absenoldebau heb eu cynllunio yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion (Mehefin 2023)

Awdurdod lleol	Absenoldeb heb ei gynllunio
Caerdydd	7
Bro Morgannwg	5
Cyfartaledd Cymru Gyfan	6.4

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

40 Mae rhai o heriau'r staff sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol yn cydfynd â'r materion a amlygwyd yn **Arddangosyn 3**, lle'r oedd oedi oherwydd aros am asesiadau gofal cymdeithasol neu gael gweithiwr cymdeithasol wedi'i ddyrannu gyda'i gilydd yn cyfrif am 47% o achosion o oedi cyn rhyddhau ar draws y rhanbarth ym mis Chwefror 2024. Mae **Arddangosyn 5** yn nodi i ba raddau y gall gwasanaethau cymdeithasol oedolion yn y rhanbarth ateb y galw am asesiad.

Arddangosyn 5: nifer yr asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd ac sy'n aros i'w cwblhau fesul 100,000 o'r boblogaeth (Chwefror 2024)

Awdurdod lleol	Asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd	Oedolion yn aros am asesiad gofal cymdeithasol	Canran yr oedolion sy'n aros am sydd yn yr ysbyty
Caerdydd	116	60	28.4%
Bro Morgannwg	153	63	38.2%
Cyfartaledd Cymru Gyfan	250	125	8.7%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

41 Mae nifer yr asesiadau a gwblhawyd a'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau gofal cymdeithasol yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru gyfan. Mewn gwirionedd, mae data ers mis Tachwedd 2022 yn dangos bod Caerdydd yn rheolaidd â'r nifer isaf o asesiadau a gwblhawyd fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghymru, sef 80 y mis. Roedd nifer yr asesiadau gofal cymdeithasol a gwblhawyd yng Nghaerdydd ar gyfer Chwefror 2024 yn uwch nag arfer. Er bod rhestrau aros ar gyfer asesiadau gofal cymdeithasol yn y rhanbarth yn gyffredinol wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, mae'r rhestrau aros bron i hanner lefel y gweithgarwch misol, sy'n awgrymu bod pwysau posibl ar gapasiti i ateb y galw. Yn ogystal, mae canran sylweddol o'r oedolion sy'n aros am asesiad gofal cymdeithasol yn rhai sy'n aros

mewn gwely ysbyty, gyda ffigurau yn y rhanbarth hwn ymhlith yr uchaf yng Nghymru.

- 42 Rydym yn ymwybodol bod y rhanbarth wedi bod yn gweithio i ymateb i heriau ei weithlu. Mae cynllun gweithredu Oedi yn Achos Llwybrau Gofal ar gyfer 2024-25 yn dangos yn glir ymdrechion i liniaru'r oedi wrth symud asesiadau ymlaen. Roedd y camau gweithredu yn cynnwys sgrinio atgyfeiriadau, symleiddio'r broses asesu, a goruchwyliaeth ac atebolrwydd ychwanegol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n amserol.

Capasiti'r sector gofal

- 43 Canfuom fod **rhanbarth yn rhoi pwyslais strategol ar ei wasanaethau gofal cartref i gefnogi cleifion pan fyddant yn gadael yr ysbyty ac ar hyn o bryd mae'n ateb y galw uwch hwnnw'n llwyddiannus.**
- 44 Mae argaeledd pecynnau gofal cartref a llety cartref gofal preswyl hirdymor yn achos allweddol o oedi cyn rhyddhau cleifion ledled Cymru. Yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro, mae mwy o ymrwymiad i gefnogi pobl i ddychwelyd adref gyda chymorth na'u rhoi mewn cartrefi gofal. Mae **Arddangosyn 6** yn nodi nifer yr oedolion sy'n cael cymorth gan y sector gofal ac i ba raddau y mae amseroedd aros am ddarpariaeth. Mae **Atodiad 4** yn nodi perfformiad rhestrau aros ar gyfer asesiadau cymdeithasol a phecynnau gofal ers mis Tachwedd 2022.

Arddangosyn 6: nifer yr oedolion sy'n cael pecynnau a lleoliadau gofal (ac yn aros amdanynt) am bob 100,000 y pen o'r boblogaeth (Chwefror 2024)

Awdurdod lleol	Gofal cartref ⁹ yn cael ei dderbyn (arosiadau)	Ailalluogi ¹⁰ yn cael ei dderbyn (arosiadau)	Llety cartref gofal hirdymor ¹¹ yn cael ei dderbyn (arosiadau)
Caerdydd	807 (0)	44 (6)	317 (7)
Bro Morgannwg	973 (13)	34 (2)	515 (3)
Cyfartaledd Cymru Gyfan	665 (34)	46 (9)	536 (11)

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 45 Ymddengys fod y rhanbarth yn rheoli'r galw i gefnogi pobl i ddychwelyd adref yn dda. Mae'r arddangosyn yn dangos bod nifer yr oedolion sy'n derbyn gofal cartref yn y rhanbarth yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, tra bod y

⁹ Yn cynnwys gofal cartref a ddarperir ac a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol.

¹⁰ Yn cynnwys gwasanaethau ailalluogi a ddarperir gan awdurdodau lleol.

¹¹ Yn cynnwys llety cartref gofal hirdymor a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol.

niferoedd sy'n aros am ofal yn isel. Mae hyn yn cyfateb i'r data a ddangosir yn **Arddangosyn 3**, sef ym mis Chwefror 2024, mai dim ond 4.2% o'r achosion o oedi cyn rhyddhau a oedd yn aros i ddechrau pecyn gofal newydd. Mae nifer yr oedolion sy'n cael eu hailalluogi fesul 100,000 o'r boblogaeth yn cyd-fynd yn fras â chyfartaledd Cymru gyfan ac mae nifer yr oedolion sy'n cael llety cartref gofal hirdymor fesul 100,000 o'r boblogaeth yn gymysg, gyda Bro Morgannwg yn unol â ffigur cyfartalog Cymru gyfan, tra bod gan Gaerdydd y ffigur isaf yng Nghymru yn gyson. Mae rhestrau aros ar draws y tri dull o gefnogaeth barhaus yn is yn y rhanbarth nag ar gyfartaledd Cymru gyfan.

- 46 Mae **Arddangosyn 7** yn nodi i ba raddau y mae oriau gofal cartref heb eu llenwi, a nifer cyfartalog yr oriau a ddarperir fesul oedolyn.


Arddangosyn 7: oriau gofal cartref heb eu llenwi ac oriau cyfartalog o ofal cartref a ddarperir fesul oedolyn, am bob 100,000 o'r boblogaeth (Chwefror 2024)

Awdurdod lleol	Oriau yn aros i gael eu llenwi	Oriau cyfartalog fesul oedolyn
Caerdydd	0	16.3
Bro Morgannwg	160.4	15.7
Cyfartaledd Cymru Gyfan	352.6	13.2

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 47 Mae nifer yr oriau gofal cartref sy'n aros i gael eu llenwi fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghaerdydd wedi bod yn sero ers 10 o'r 16 mis diwethaf ac mae wedi bod yn isel iawn yn y chwe mis arall. Mae nifer yr oriau sy'n aros i gael eu llenwi ym Mro Morgannwg wedi gostwng yn sylweddol o bron i 2,000 ym mis Tachwedd 2022 i isafbwynt o 57 ym mis Ionawr 2024 cyn codi eto i 160 ym mis Chwefror 2024. Roedd y ddwy ardal ym mis Chwefror 2024 yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r rhanbarth hefyd yn bwrpasol yn darparu nifer uwch o oriau cymorth gofal cartref ar gyfartaledd fesul person nag ar lefel Cymru gyfan. Eto, mae hyn yn dangos, er bod y rhanbarth yn dibynnu'n helaeth ar ofal cartref, ei fod yn gallu delio'n llwyddiannus â lefelau presennol y galw.
- 48 Mae **Arddangosyn 8** yn nodi i ba raddau y mae llety cartref gofal tymor byr heb ei gynllunio yn cael ei ddefnyddio ar draws y rhanbarth. Ers mis Tachwedd 2022, mae'r rhanbarth wedi bod â rhai o'r niferoedd isaf o oedolion fesul 100,000 o'r boblogaeth mewn llety cartref gofal tymor byr heb ei gynllunio yng Nghymru. Mae hyn o ganlyniad i reolaeth y farchnad gofal cartref i leihau'r angen am leoliadau cartref gofal tymor byr

Arddangosyn 8: nifer yr oedolion fesul 100,00 y pen o'r boblogaeth mewn llety gofal tymor byr heb ei gynllunio am dri mis neu fwy, heb ddyddiad dod i ben (Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 49 Er bod Caerdydd ymhlith yr ardaloedd Cyngor sydd â'r nifer gyffredinol fwyaf o welyau cartrefi gofal yng Nghymru, ym mis Gorffennaf 2023, roedd ganddi'r nifer isaf o bobl fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n derbyn darpariaeth cartref gofal. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith bod rhestrau aros yn gyffredinol isel ar gyfer gofal cartref, neu ddim rhestrau aros o gwbl, yn golygu nad yw Cyngor Caerdydd yn dibynnu ar lety heb ei gynllunio am gyfnod o 3+ mis yn yr un modd â rhanbarthau eraill ac felly mae llai o bobl yn cael eu rhoi mewn llety dros dro heb ei gynllunio. Mae gan Fro Morgannwg lawer llai o welyau cartrefi gofal na Chaerdydd ac mae ganddi nifer uwch o bobl wedi'u lleoli mewn llety dros dro heb ei gynllunio am dri mis neu fwy, er bod hyn yn dal yn gyson well na sefyllfa Cymru gyfan fesul 100,000 o'r boblogaeth.

Y broses ryddhau


- 50 Canfuom fod **amrywiaeth o ran cadw at bolisi rhyddhau'r Bwrdd Iechyd, gyda thystiolaeth o ddogfennaeth anghyflawn.**
- 51 Roedd aros am asesiad ar y cyd a chwblhau asesiad clinigol gan weithiwr iechyd proffesiynol yn cyfrif am gyfran lawer llai o oedi cyn rhyddhau cleifion yn ôl y data a ddangosir yn **Arddangosyn 3**. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad ffactorau iechyd penodol eraill sy'n arwain at oedi cyn rhyddhau cleifion.

- 52 Mae cynlluniau rhyddhau da yn dibynnu ar gyfathrebu a chydgysylltu da ar draws gwahanol grwpiau proffesiynol, gan ystyried rhyddhau cyn gynted ag y caiff claf ei gyflwyno i wasanaethau. Mae cynlluniau rhyddhau da hefyd yn cael eu hwyluso drwy gael prosesau sydd wedi'u dogfennu'n glir sy'n cael eu rhannu â'r holl staff sy'n gysylltiedig i hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r gwahanol rolau yn y broses ryddhau.
- 53 Mae gan y Bwrdd lechyd bolisi rhyddhau. Roedd y polisi rhyddhau a adolygwyd gennym yn gynhwysfawr ac yn rhoi eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau amrywiol aelodau'r tîm i ryddhau cleifion. Roedd yn hyrwyddo dull tîm amlddisgyblaethol cydgysylltiedig ac yn amlygu pwysigrwydd cyfathrebu da â'r claf a/neu ei gynrychiolwyr. Fodd bynnag, yn ein hadolygiad yn 2017, gwnaethom argymhell y dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod ei adolygiad arfaethedig o'r polisi yn cynnwys cleifion a gofalwyr. Er i'r polisi gael ei ddiwygio yn 2020, nid yw'n glir i ba raddau y cafodd yr adolygiad hwn ei lywio gan gydweithio â chleifion a gofalwyr. Roedd y polisi i fod i gael ei ddiwygio eto yn 2023, ond nid yw hyn wedi digwydd eto.
- 54 Amlygodd adroddiad Archwilio Mewnol yn 2020 broblemau o ran cadw at brosesau rhyddhau'r Bwrdd lechyd. Canfu'r adroddiad amrywiad yn ei adolygiad o ran a oedd staff yn cadw at broses y Bwrdd lechyd a thynnodd sylw at achosion lle nad oedd y broses wedi'i chymhwyso'n gywir. Roedd enghreifftiau yn cynnwys taflenni gwybodaeth rhyddhau cleifion heb eu dosbarthu, diffyg Dyddiadau Rhyddhau Rhagfynegol cyfredol a rhestrau gwirio rhyddhau anghyflawn.
- 55 Adlewyrchwyd canfyddiadau'r adroddiad archwilio mewnol yn 2020 yn ein hadolygiad o nodiadau achos cleifion ysbyty. Dadansoddodd ein hadolygiad o nodiadau achos sampl o nodiadau cleifion o fis Hydref 2022 gyda hyd arhosiad y tu hwnt i 21 diwrnod. Gwelsom ansawdd a chyflawnrwydd amrywiol o ddogfennau rhyddhau rhwng clinigwyr a wardiau. Roedd rhai o'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:
- dim tystiolaeth o ddyddiad rhyddhau disgwylidig o fewn 48 awr i dderbyniad mewn 14 o'r 17 achos (82%) a adolygwyd;
 - diffyg dogfennaeth ar gyfer Sgyrsiau Beth sy'n Bwysig yn unrhyw un o'r nodiadau achos a adolygwyd, ac roedd llai na hanner y nodiadau achos (47%) yn dangos bod y teulu'n cymryd rhan ac yn cael gwybod am gynlluniau gofal y claf.
 - tystiolaeth o ddatganiad wedi'i ddogfennu bod y claf wedi'i optimeiddio'n glinigol ar gyfer ei ryddhau mewn ychydig dros hanner (56%) y nodiadau achos;
 - tystiolaeth o drafod ac adolygu cynlluniau rhyddhau yn rheolaidd yn ystod rowndiau ward mewn 58% o'r nodiadau achos.
- Er ei bod yn bosibl bod trefniadau wedi newid ers mis Hydref 2022, nid yw'r Bwrdd lechyd wedi cynnal unrhyw archwiliadau diweddar i ddangos gwelliannau ac mae'n debygol bod llawer o'r materion hyn yn parhau.
- 56 Yn y rhan fwyaf o'r nodiadau achos a adolygwyd gennym, prif achos yr oedi cyn rhyddhau cleifion oedd yr oedi wrth sicrhau asesiad gan weithiwr cymdeithasol.

Roedd llawer o nodiadau achos yn dangos bod angen atgyfeiriad ar gyfer gweithwyr proffesiynol gan gynnwys ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr a dietegwyr. Yn gadarnhaol, lle'r oedd angen atgyfeiriadau, gwelsom ddogfennaeth ddefnyddiol a chyflawn. Fodd bynnag, unwaith yr oedd y broses ryddhau yn mynd rhagddi, anaml y disgrifiwyd trefniadau logistaidd h.y. a oedd angen cludiant ar y claf neu a oedd ei feddyginiaethau wedi'u paratoi.

- 57 Nodwyd gennym hefyd fod rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn parhau i fod yn weithgaredd sy'n digwydd yn bennaf yn ystod yr wythnos, gydag ychydig iawn o achosion (a rhai syml yn bennaf) o ryddhau cleifion yn digwydd ar benwythnosau, oherwydd patrymau gwaith staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Dangosodd ein data o fis Hydref 2022 mai dim ond 3.9% o'r rhyddhadau a ddigwyddodd ar ddydd Sadwrn (**Arddangosyn 9**). Yn ystod yr wythnos, mae rhyddhadau yn cyrraedd uchafbwynt ar ddydd Llun ar draws y ddau safle, gyda thraean o'r holl ryddhadau yn digwydd ar y diwrnod hwn. Gallai hyn fod yn adlewyrchu patrymau gwaith wythnosol meddygon ymgynghorol ar yr adeg y casglwyd y data (gan nodi cynlluniau'r Bwrdd Iechyd i gyflwyno gwaith meddygon ymgynghorol saith diwrnod fel y disgrifir ym **mharagraff 71**). Gall hefyd adlewyrchu'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi'r broses o ryddhau dros y penwythnos.

Arddangosyn 9: diwrnod rhyddhau'r holl gleifion a ryddhawyd o safleoedd ysbytai aciwt ym mis Hydref 2022, fel canran o gyfanswm y cleifion a ryddhawyd¹²



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

¹² Ac eithrio cleifion a fu farw.

- 58 Dywedwyd wrthym fod prosesau rhyddhau gwahanol ar waith ar gyfer cleifion o Gaerdydd a Bro Morgannwg, megis y gwasanaethau un pwynt cyswllt. Clywsom yn ystod ein gwaith maes nad yw staff yn y Bwrdd Iechyd bob amser yn ymwybodol o wahaniaethau rhwng prosesau gwasanaethau cymdeithasol, a all arwain at oedi. Soniodd y staff hefyd am ddiwylliant o osgoi risg, lle mae staff yn amharod i ryddhau cleifion gan eu bod yn ofni efallai na fydd y claf yn ymdopi cystal gartref. Er y gall staff fod yn ymddwyn mewn ffordd garedig, efallai nad ydynt yn gweithredu er budd pennaf claf. Mae cadw cleifion yn yr ysbyty am gyfnod hwy nag sydd ei angen arnynt yn glinigol yn cael effaith negyddol ar brofiad a chanlyniad y claf, yn ogystal â llif cleifion ehangach o fewn yr ysbyty. Er bod llawer o bobl y cawsom sgwrs â nhw yn cydnabod effaith negyddol oedi cyn rhyddhau cleifion ar annibyniaeth a llesiant cleifion, mae amharodrwydd parhaus i gymryd risgiau mesuredig ac i gydnabod yr effaith ganlyniadol sylweddol y mae oedi cyn rhyddhau yn ei chael ar lif cleifion a'r system ehangach.
- 59 Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fodel Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA), sydd wedi'i gynllunio i gefnogi pobl i wella gartref cyn cael eu hasesu am unrhyw angen parhaus, a thrwy hynny leihau hyd arhosiad yn yr ysbyty. Cyflymwyd y broses o roi'r model ar waith yn ystod y pandemig, ac ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi rhanbarthau ag arian ychwanegol i ymgorffori D2RA ymhellach, gyda chanllawiau cenedlaethol wedi'u diweddaru yn cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023. Er bod y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein gwaith maes wedi dangos ymwybyddiaeth o'r model a'i egwyddorion, ni welsom unrhyw gyfeiriadau at D2RA yn y polisi rhyddhau a adolygwyd gennym.

Pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd?

- 60 Mae'r adran hon yn ystyried y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan y sefydliadau statudol, gan gynnwys drwy'r BPRh i wella llif cleifion allan o'r ysbyty.

Cynlluniau strategol a gweithredol

- 61 Canfuom fod **partneriaid yn dangos ffocws clir ar gynllunio strategol a gweithredol a ddatblygwyd ar y cyd i wella'r broses o ryddhau cleifion**
- 62 Gwnaethom adolygu cynlluniau byrddau iechyd ac awdurdodau lleol perthnasol a chanfod bod cynlluniau yn y rhanbarth yn adlewyrchu dealltwriaeth dda o'r heriau sy'n effeithio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Mae cynlluniau hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad partneriaid i ddatrys rhai o'r heriau allweddol sy'n ymwneud â llif megis bylchau yn y gweithlu. Caiff cynlluniau, gan gynnwys [Cyd-gynllun Ardal](#) 2023, eu llywio gan ragamcanion data a galw, ac maent yn adlewyrchu gofynion cynllunio allweddol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng¹³.

¹³ Mae'r rhaglen chwe nod genedlaethol ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng, a gyflwynwyd yn 2021, yn cynnwys dau nod sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gwella'r broses

- 63 Mae cynllun cyflawni'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng 2024-25 yn nodi mentrau presennol a newydd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen chwe nod. Canfu ein hadolygiad ei fod yn gynllun cynhwysfawr ac wedi'i drefnu'n dda. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyfuno chwe nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn bedair ffrwd waith, a'r bedwaredd o'r rhain yw optimeiddio llif cleifion a'u rhyddhau o'r ysbyty. Mae'r cynllun gweithredu'n nodi uchelgeisiau i wella trefniadau rhyddhau drwy fesurau fel gweithio saith diwrnod i feddygon ymgynghorol, ail-lunio llwybr eiddilwch ac ehangu gwasanaethau cymunedol er mwyn galluogi tynnu cleifion o ofal eilaidd.
- 64 Mae partneriaid yn y rhanbarth hefyd wedi datblygu cynllun gweithredu ar y cyd ar gyfer Oedi yn Achos Llwybrau Gofal. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi camau gweithredu unigol, swyddogion cyfrifol, amserlenni a diweddariadau cynnydd yn glir. Roedd y fersiwn a adolygwyd gennym, ym mis Ionawr 2024, yn dangos cynnydd da ar draws y rhan fwyaf o gamau gweithredu, gyda llwyddiant arbennig o ran trefniadau ar gyfer ymgysylltu rheolaidd rhwng partneriaid i adolygu a thrafod heriau a gwelliannau. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod nifer sylweddol o gamau gweithredu yn ymwneud yn bennaf â sefydlu cyfarfodydd, gyda llai o ffocws ar effaith a chanlyniadau gwaith ymgysylltu o'r fath.
- 65 Mae'r rhanbarth yn cydnabod mai her allweddol a rennir yw recriwtio staff cymwys yn y gymuned i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty, gan gynnwys gofalywyr a therapyddion galwedigaethol. Yn 2022, cynhaliodd y rhanbarth ddadansoddiad Cryfderau, Heriau, Cyfleoedd, Bygythiadau (SCOT) i lywio ei ymgyrch hysbysebu, o'r enw 'Ymunwch â'n Cymuned Ofalu' sydd wedi'i dylunio i ddefnyddio sawl dull i ddenu ymgeiswyr i rolau wrth iddynt ymddangos. Mae Cyngor Caerdydd hefyd yn gweithio i fynd i'r afael â'r prinder gwasanaethau gofal cartref drwy lansio ei Academi Gofalwyr Caerdydd ei hun i hyfforddi pobl, yn ogystal â chreu rhaglen 'Datblygu Eich Hun' sy'n llwybr i ddod yn ofalwr cymwys.
- 66 Datblygwyd cynllun gaeaf y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2022-23 gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth. Llywiwyd y cynllun gan ymarfer galw a chapasiti mewnol a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd i gymharu'r sylfaen gwelyau sydd ar gael yn erbyn y senarios gorau, y senarios cyfartalog gwaethaf a chyn COVID-19. Roedd y cynllun yn rhagweld bwlch gwelyau posibl yn ystod y pwysau brig o 152 o welyau. Yna ceisiodd partneriaid liniaru'r bwlch hwn drwy fentrau a ddisgrifiwyd mewn cynllun gweithredu ar y cyd ategol rhwng y Bwrdd Iechyd a'r ddau awdurdod lleol. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys cyflogi rhagor o weithwyr cymdeithasol, recriwtio a nawdd tramor, a chynyddu nifer y gwelyau a chyfleusterau cam-i-lawr, gan gynnwys cyfleuster Glan-y-Llyn¹⁴. Mae papurau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o 2023 a 2024 yn dangos bod y prosiectau hyn wedi llwyddo i liniaru

o ryddhau cleifion: 'nod pump – darparu'r gofal a'r ymarfer rhyddhau gorau posibl i'r claf ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty', a 'nod chwech: dull gartref yn gyntaf a lleihau'r risg o orfod mynd yn ôl i'r ysbyty'.

¹⁴ <https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/quality-safety-and-patient-experience-committee-2021-22/241c-appendix-3-final-lakeside-wing-uhw-announced-scrutiny-visit-report1/>

heriau pwysau'r gaeaf, gyda llwyddiant mentrau yn 2022 yn gosod sylfaen dda ar gyfer llwyddiant pellach yn ystod gaeaf 2023.

Gweithio mewn Partneriaeth

- 67 Canfuom fod **tystiolaeth glir o weithio mewn partneriaeth yn strategol ac yn weithredol o fewn y rhanbarth, sy'n arwain at newid cadarnhaol.**
- 68 Ar lefel strategol, mae tystiolaeth o ymgysylltu a gwaith partneriaeth rheolaidd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r ddau awdurdod lleol. Mae Prif Swyddog Gweithredol y Bwrdd Iechyd a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Arweinyddiaeth Strategol (SLG) bob mis a chyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bob deufis. Roedd ein harsylwadau o gyfarfodydd yn adlewyrchu trafodaethau adeiladol a gynhaliwyd yn y fforymau hyn, gyda thystiolaeth glir o gydweithio ar eitemau a thrafodaeth dda gan gynnwys her adeiladol.
- 69 Yn weithredol, dywedodd y staff y cawsom sgwrs â nhw eu bod wedi gweld newid diwylliannol yn ystod 2022 rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol, lle'r oeddent bellach yn gweld ei gilydd yn gweithio tuag at nod cyffredin. Mae hyn wedi arwain at duedd llawer llai i fynd yn ôl i ddiwylliant o feio lle bernir bod gweithiwr proffesiynol arall yn achosi oedi.
- 70 Mae partneriaid yn buddsoddi'n helaeth o'u hamser i hwyluso llif amserol a gwelsom amrywiaeth o gyfarfodydd gweithredol gan gynnwys rowndiau ward, cyfarfodydd rheolwyr safle a chyfarfodydd oedi cyn trosglwyddo gofal sy'n cynnwys ystod eang o weithwyr proffesiynol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd hefyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol i uwchgyfeirio a rheoli achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion.
- 71 Sefydlwyd y Model Aseswr Dibynadwy gyntaf fel rhan o COVID-19: Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o'r Ysbyty a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020. Mae Asesydd Dibynadwy yn cyfeirio at rywun sy'n gweithredu ar ran a chyda caniatâd sefydliadau lluosog sy'n cynnal asesiad o anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol. Mae gan y model y potensial i gefnogi ymateb gwasanaeth mwy effeithlon ac amserol. Oherwydd y cynnydd araf o ran rhoi'r model ar waith ledled Cymru, ym mis Chwefror 2023, gosododd Llywodraeth Cymru ofyniad i ranbarthau adolygu a gweithredu Cynllun Gweithredu ar gyfer Aseswyr Dibynadwy. Mae'r rhanbarth yn nodi cynnydd da yn erbyn ei gynllun gweithredu, gyda niferoedd cynyddol o swyddi therapyddion galwedigaethol yn cefnogi asesiad dibynadwy.
- 72 Roedd cam gweithredu allweddol yng nghynllun chwe nod y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25 yn cynnwys mynd ar drywydd gweithio saith diwrnod i feddygon ymgynghorol. Roedd nifer o'r rhai y cawsom sgwrs â nhw yn trafod yr heriau o ran hwyluso rhyddhau cleifion ar y penwythnos yn ystod ein gwaith maes, fel y trafodwyd ym **mharagraff 58**. Er ei bod yn gadarnhaol nodi bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn, mae'n debygol y bydd gwelliannau'n gyfyngedig oni bai bod gwaith saith diwrnod yn cael ei ddilyn gyda gweithwyr proffesiynol eraill a'i wneud ar y cyd â phartneriaid. Er enghraifft, os nad yw cartrefi

gofal neu ofal cartref yn gallu darparu ar gyfer rhyddhau cleifion dros benwythnosau efallai y bydd y fenter yn methu â chyflawni'r effaith i'w llawn botensial.

Strwythurau gweithredol

- 73 Canfuom fod **strwythurau gweithredol ar draws y rhanbarth ac o fewn y Bwrdd lechyd yn rhoi ffocws cadarnhaol ar lif cleifion.**
- 74 Mae pedair ffrwd waith y Bwrdd lechyd ar gyfer y chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael eu rheoli gan grwpiau sy'n cyfarfod yn fisol i fonitro'r broses o gyflawni cynlluniau. Sicrheir perchnogaeth uwch effeithiol o bob ffrwd waith drwy arweinwyr clinigol a gweithredol a ddyrennir. Mae'r ffrydiau gwaith yn adrodd i Fwrdd Cyflawni Chwe Nod Caerdydd a'r Fro, sy'n cael ei gadeirio gan Brif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd lechyd, sydd yn ei dro yn adrodd i Fwrdd Uwch Arweinyddiaeth y Bwrdd lechyd. Mae'r trefniadau hyn yn dangos perchnogaeth dda o'r agenda chwe nod i ysgogi newid.
- 75 Ar lefel ranbarthol, mae'r gweithgaredd sy'n gysylltiedig yn bennaf â gwella llif o ysbytai yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Rhaglen Cyflawni @Gartref o fewn strwythur y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae Rhaglen Cyflawni @Gartref yn cynnwys cymysgedd da o gydweithwyr ieuchyd a gofal cymdeithasol. Canfu ein harsylwad yn ystod y cyfarfod dystiolaeth o gydweithio effeithiol ac ymgysylltu cadarnhaol rhwng aelodau.
- 76 Mae'r Bwrdd Rhaglen yn arwain datblygiad strategol a throsolwg rhaglenni rhanbarthol a'u prosiectau ategol. Mae'r Bwrdd Rhaglen yn adrodd i Grŵp Arweinyddiaeth Strategol (SLG) y BPRh, sydd yn ei dro yn adrodd i'r BPRh. Canfuom fod aelodau'r SLG a'r BPRh yn cynnwys rhaniad priodol o gynrychiolwyr a hynafedd oddi wrth bartneriaid, gan ddangos ffocws clir a bwriad partneriaid i ymgysylltu â heriau hirsefydlog a chefnogi gwelliannau iddynt, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â llif allan o'r ysbyty. Dangoswyd hyn yn y gwaith partneriaeth i ymateb i her 1,000 o welyau Llywodraeth Cymru¹⁵. Gofyniad Llywodraeth Cymru oedd i'r rhanbarth sefydlu 163 o'r 1,000 o welyau neu wasanaethau cyfatebol erbyn diwedd mis Mawrth 2023. Mae adroddiadau Llywodraeth Cymru yn dangos bod y rhanbarth wedi nodi 112 o welyau neu wasanaethau cyfatebol. Mae hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu'r darlun ledled Cymru, a welodd lawer o ranbarthau yn gwneud cynnydd ond yn y pen draw yn methu â chyrraedd eu targed tybiannol oherwydd ffactorau megis prinder staff.

¹⁵ Ym mis Gorffennaf 2022, gosododd y Gweinidog lechyd a Gofal Cymdeithasol her i Fyrddau lechyd ac Awdurdodau Lleol sefydlu 1,000 o welyau ychwanegol neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt i gefnogi rhyddhau cleifion yn amserol: <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diweddariad-ar-y-rhaglen-chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-gofal-mewn-argyfwng>

Rhannu gwybodaeth

- 77 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn cryfhau ymhellach ei brosesau ar gyfer coladu a dadansoddi gwybodaeth, gan gynnwys diwygio ffurflenni rhyddhau a datblygu atebion digidol i gefnogi rhyddhau effeithiol.**
- 78 Fel arfer, bydd gofyn i weithwyr proffesiynol o fewn ac ar draws sefydliadau rhannu gwybodaeth am y claf er mwyn hwyluso trefniadau rhyddhau priodol a gofal parhaus, yn enwedig pan fydd gan y claf anghenion mwy cymhleth. Yn ystod ein gwaith maes, canfuom fod trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth yn gweithio'n dda ar y cyfan, gydag ystod dda o ddata ar gael i staff.
- 79 Fodd bynnag, mae heriau'n codi gan fod y data cleifion sydd eu hangen i gefnogi rhyddhau effeithiol yn cael ei gadw mewn sawl system TG. Yn ogystal, clywsom fod cyfyngiadau capasiti yn golygu bod staff yn ei chael hi'n anodd diweddarau systemau electronig a all olygu nad yw cleifion sy'n barod i'w rhyddhau yn cael eu nodi cyn gynted â phosibl. Gan gydnabod yr heriau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno system o'r enw STAMP¹⁶ ar draws ei wardiau. Mae STAMP yn system ddigidol ar gyfer monitro ac olrhain cleifion er mwyn galluogi staff iechyd i ddeall statws claf mewn amser real. Mae'n awtomeiddio'r broses o dynnu gwybodaeth o wahanol ffynonellau i ryddhau amser staff. Roedd y Bwrdd Iechyd hefyd wedi comisiynu gwaith gan yr asiantaeth dadansoddi data, Lightfoot, a oedd yn darparu mewnwelediadau defnyddiol i ddata presennol.
- 80 Yn ystod ein gwaith maes, dywedodd staff wrthym hefyd fod gwaith papur atgyfeirio gwael yn golygu bod gwasanaethau cymdeithasol yn cael gwybodaeth nad yw'n ddefnyddiol neu'n anghywir am anghenion claf. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi cydnabod gwendidau yn y dogfennau ac roedd yn bwriadu datblygu ffurflen atgyfeirio newydd i ddarparu gwybodaeth o ansawdd gwell am anghenion cleifion.

Defnyddio cyllid

- 81 Canfuom fod **y rhanbarth yn dangos cynllunio strategol yn ei ddefnydd o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac yn cymryd gofal i werthuso perfformiad a mesur canlyniadau i gleifion.**
- 82 Mae'r rhanbarth yn defnyddio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi cynlluniau sydd â'r nod o wella cynlluniau rhyddhau. Mae'r RIF yn gronfa bum mlynedd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni rhaglen o newid o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2027. Nod y gronfa yw sefydlu a phrif ffrydio o leiaf chwe model cenedlaethol newydd o ofal integredig i ddarparu gwasanaeth di-dor ac effeithiol i bobl Cymru. Mae dau yn cynnwys cysylltiad clir â gwella llif cleifion allan o'r ysbyty, sef: Gwasanaeth Gartref o'r Ysbyty; ac Atebion ar Sail Llety.
- 83 Mae disgwyliad clir yng nghanllawiau'r RIF y bydd prosiectau 'cronfa gyfatebol' partneriaid hyd at 50% erbyn diwedd blwyddyn 5, gyda chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer pob prosiect yn lleihau bob blwyddyn er mwyn caniatáu i brosiectau

¹⁶ STAMP: System ar gyfer Olrhain a Rheoli Cleifion

llwyddiannus ddod yn fusnes fel arfer. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau ariannol y mae'r GIG yn ei wynebu ar hyn o bryd, mae'r disgwyliad hwn wedi'i lacio.

- 84 Cafodd y rhanbarth £19.2 miliwn o gyllid yr RIF yn 2022-23 a £19.4 miliwn yn 2023-24. Mae tua dwy ran o bump o'r dyraniad wedi'i neilltuo i'w Raglen @Gartref sy'n dod o dan flaenoriaeth Heneiddio'n Dda y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac sy'n cefnogi darparu'r model Gwasanaethau Gartref o'r Ysbyty cenedlaethol. Mae'r Rhaglen @Gartref yn dod â chwe phrosiect at ei gilydd er mwyn galluogi pobl hŷn i gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt, pryd a ble bynnag y mae ei angen arnynt. Yn 2023-24, roedd y rhain yn cynnwys cymorth cymunedol yn yr ysbyty i gefnogi rhyddhau cleifion a sefydlu dull clwstwr tîm amlddisgyblaethol gan gynnwys apwyntiad dilynol gofal cymdeithasol ar ôl rhyddhau cleifion. Mae'r Rhaglen @Gartref yn cael ei harolygu'n rheolaidd drwy adroddiadau diweddar sy'n nodi sut mae cleifion yn cael mynediad at y gwasanaethau a ddarperir.
- 85 Mae'r rhanbarth yn cyflwyno gwybodaeth ariannol ar sut y mae'n rheoli'r RIF i Lywodraeth Cymru bob chwarter. Ar gyfer 2023-24, nododd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ymrwymiad gormodol o tua £1.8 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Roedd hyn oherwydd gwariant y cytunwyd arno i gynnal y capasiti ychwanegol a gyflwynwyd fel rhan o'r her o 1,000 o welyau i greu capasiti cam-i-lawr ychwanegol yn ystod gaeaf 2022-23. Fodd bynnag, mae adroddiad cyllid chwarterol o fis Medi 2023 yn dangos bod sawl prosiect yn tanwario oherwydd swyddi gwag neu oedi wrth recriwtio. Yn ystod ein gwaith maes clywsom ei bod yn aml yn cymryd mwy o amser i sefydlu prosiect ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, gan gynnwys amser i recriwtio, a all achosi oedi. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos bod partneriaid yn y rhanbarth wedi ymrwymo £11.7 miliwn o arian cyfatebol, gyda £2.6 miliwn ar gyfer cynlluniau o fewn y model Gartref o'r Ysbyty.
- 86 Mae Adroddiadau Blynnyddol y BPRh yn 2022-23 a 2023-24 yn darparu data ac astudiaethau achos ar sut mae'r Rhaglen @Gartref wedi bod o fudd i gleifion, gan gynnwys drwy ddarparu mynediad at wasanaethau gofal canolraddol i dros 6,000 o gleifion a chyflawni 70% o atgyfeiriadau i'w brosiect 'Adre o'r Ysbyty' wedi'u brysennu o fewn un diwrnod. Datblygodd y rhanbarth hefyd adroddiad astudiaeth achos yn 2022-23 a ddangosodd effaith wirioneddol prosiectau ar y cleifion a oedd yn derbyn y gwasanaethau a ariennir.

Craffu a sicrwydd

- 87 Canfuom fod **gwaith craffu rhesymol ar faterion yn ymwneud â chynllunio rhyddhau o fewn pob sefydliad partner.**
- 88 Adolygwyd lefel y wybodaeth y mae pwyllgorau partneriaid, y Bwrdd a'r Cabinet yn ei chael mewn perthynas â'r llif allan o'r ysbyty. Mae'r Bwrdd lechyd yn derbyn adroddiadau perfformiad a risg rheolaidd sy'n rhoi cipolwg ar welliannau sy'n ymwneud â llif cleifion drwy'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae'r Bwrdd lechyd yn dangos ffocws ar fonitro perfformiad sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal brys ac mewn argyfwng, ac yn benodol llif cleifion drwy'r gwasanaethau hynny. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid yn monitro metrigau yn rheolaidd gan gynnwys y canlynol:
- amser ymateb brys canolrifol i alwadau ambr;

- amser canolrifol o gyrraedd adran achosion brys i gael asesiad gan uwch-benderfynwr clinigol (munudau)
- nifer yr achosion o drosglwyddo cleifion ambiwlans dros awr;
- cleifion yn aros dros 24 awr yn yr Adran Achosion Brys;
- presenoldeb mewn unedau Gofal Brys yr Un Diwrnod;
- hyd arhosiad cleifion mewn gwelyau aciwt; a
- oedi yn achos llwybrau gofal.

- 89 Mae adroddiadau perfformiad yn dangos yn glir sut mae perfformiad yn cymharu â thargedau, gan gynnwys blaenoriaethau gweinidogol neu ymrwymadau cynllun blynyddol y Bwrdd Iechyd, gan ddefnyddio data a dadansoddiadau i nodi tueddiadau. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn canolbwyntio o bryd i'w gilydd ar feysydd sy'n berthnasol i lif cleifion, megis ym mis Tachwedd 2023 pan gafodd adroddiad ar hyd arhosiad, ac ym mis Medi 2023 pan gafodd drosolwg o berfformiad ariannol y Gronfa a'r mentrau a ariennir ar gyfer 2023-24. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cymryd camau i sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybod am gynnydd mewn perthynas â'r chwe nod ar gyfer y rhaglen gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan gynnwys cyflwyniad cynhwysfawr yn ei sesiwn Datblygu'r Bwrdd ym mis Chwefror 2024. Mae ffocws clir ar effaith o fewn adroddiadau gan ddefnyddio data a thueddiadau o gymharu â thargedau a ddiffinnir yn glir.
- 90 Yn ogystal, mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn monitro'r risg corfforaethol sy'n gysylltiedig â llif cleifion. Mae'r ail risg corfforaethol a restrir ar gofrestr y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â niwed i gleifion oherwydd gorlenwi yn yr 'ôl troed Meddygaeth Frys ac Acíwt' sy'n arwain at 'anallu i ddarparu a chynnal safonau ansawdd allweddol'. Mae camau gweithredu presennol wedi lleihau'r sgôr risg o'r uchafswm o 25 i 20, ond nid yw eto wedi cyrraedd y sgôr risg targed o 15.
- 91 Mae'r ddau awdurdod lleol hefyd yn dangos ffocws ar faterion sy'n ymwneud â llif cleifion. Er enghraifft, mae Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Caerdydd yn craffu ar adroddiadau perfformiad yn rheolaidd. Mae cofnodion cyfarfodydd yn rhoi tystiolaeth o graffu gyda ffocws cryf ar y gweithlu gofal cymdeithasol, gan ystyried capasiti, recriwtio, y Model Aseswr Dibynadwy, a lefelau absenoldeb oherwydd salwch a swyddi gwag. Mae'r pwyllgor yn cael adroddiad perfformiad chwarterol sy'n cynnwys ystod o fetrigau megis nifer y bobl 65 oed neu hŷn fesul 100,000 o'r boblogaeth mewn gofal preswyl, nifer cyfartalog y diwrnodau rhwng atgyfeirio a dechrau pecyn mewn gofal cartref, yr amser hiraf rhwng atgyfeirio a dechrau pecyn mewn gofal cartref (dyddiau) a nifer cyfartalog y bobl sy'n aros am ofal cartref ar ddiwedd y mis. Mae'r adroddiad perfformiad hefyd yn cynnwys adran ehangach ar ryddhau cleifion o'r ysbyty, olrhain pecynnau o oedi cyn rhoi gofal a'r rhesymau dros oedi yn ogystal â chanran y bobl sydd wedi'u hovertimeiddio'n glinigol a neilltuwyd i lwybr D2RA o fewn 72 awr i frysbenneu.
- 92 Mae Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg hefyd yn monitro metrigau allweddol megis nifer yr oedolion sy'n aros am ofal cartref ac yn aros am asesiad o anghenion gofal cymdeithasol. Mae Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor yn ceisio lleihau'r rhestr aros ar gyfer pecynnau gofal cartref gan gynnwys rhyddhau, y gwnaeth leihau i sero ar ddiwedd y flwyddyn ar

gyfer 2023-24. Yn ogystal, bob mis Ionawr, mae'r Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gan gynnwys y defnydd o'r Gronfa, cynllunio ar gyfer y gaeaf a rhaglen waith ehangach y BPRh. Fodd bynnag, nid oes unrhyw risgiau ar gofrestrau risg yr un o'r awdurdodau lleol sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol i oedolion na llif ysbytai.

- 93 Mae'r BPRh yn cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yr RIF a phapurau cyfnodol ar feysydd blaenoriaeth allweddol ond nid yw'n cael adroddiadau perfformiad gweithredol rheolaidd. Byddai ystyried adroddiadau perfformiad yn werthfawr i ddeall effaith gweithgareddau'r RIF ar fynd i'r afael â heriau perfformiad hirsefydlog.

Beth yn fwy ellir ei wneud?

- 94 Ceir cydnabyddiaeth glir gan bartneriaid rhanbarthol o'r problemau sy'n gysylltiedig â rhyddhau ac awydd i'w datrys gyda chymorth strategaethau a chynlluniau gweithredol, a'r defnydd o gynlluniau ariannu wedi'u targedu. Gyda'i gilydd, ymddengys fod y dull hwn yn ysgogi gwelliant cynaliadwy yn y sefyllfa gyffredinol. Mae ein gwaith wedi canfod bod nifer o gamau pellach y gellid eu cymryd a fyddai'n helpu ymhellach i wella llif amserol ac effeithiol allan o ysbytai ar draws y rhanbarth, a lleihau rhai o'r heriau y mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Archwilir y camau gweithredu hyn yn yr arddangosyn canlynol ac maent yn cyd-fynd â'r argymhellion a nodir yn gynharach yn yr adroddiad.

Arddangosyn 10: camau gweithredu pellach i bartneriaid er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau o ran llif cleifion allan o'r ysbyty

Gwella cydymffurfiaeth â pholisïau a chanllawiau	<p>Bydd cymhwyso prosesau rhyddhau arfaethedig yn fwy cyson yn cael ei gynorthwyo gan staff yn cael mynediad at ganllawiau cyfredol y cytunwyd arnynt ar y cyd sy'n nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau, a disgwyliadau ynghylch pryd a sut y dylai staff rannu gwybodaeth.</p> <p>Yn ogystal, byddai cael cylich archwilio rheolaidd yn galluogi partneriaid i asesu effeithiolrwydd a chysondeb y defnydd o bolisïau a chanllawiau rhyddhau.</p>
Gwella ansawdd gwybodaeth	<p>Mae cael gwybodaeth glir a chynhwysfawr mewn nodiadau achos cleifion sy'n nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion, yn galluogi dealltwriaeth gliriach o'r hyn sy'n digwydd gyda chlaf ac yn cefnogi cynlluniau rhyddhau effeithiol gan bob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â gofal cleifion tra byddant yn yr ysbyty.</p>

Rhyddhau cleifion dros y penwythnos gymaint â phosibl

Mae datblygu **gwasanaethau saith diwrnod** yn cefnogi'r broses o ryddhau cleifion dros y penwythnos, gan leihau arosiadau diangen yn yr ysbyty.

Gwneud y defnydd gorau o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Mae ystyried **perfformiad gweithredol** yn rheolaidd ar lefel ranbarthol yn hwyluso gwneud penderfyniadau mwy effeithiol ar draws partneriaid wrth ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid rhanbarthol.

Atodiad 1

Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 11** yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau hyn.

Arddangosyn 11: dulliau archwilio

Elfen o'r dulliau archwilio	Disgrifiad
Dogfennau	<p>Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Papurau Byrddau, Cabinetau a phwyllgorau• Diweddariadau ar raglen y chwe nod a gofal brys ac mewn argyfwng i bwyllgorau• Cynlluniau gweithredol a strategol sy'n ymwneud â gofal brys ac mewn argyfwng• Papurau'r BPRh, gan gynnwys astudiaethau achos• Y broses ryddhau• Cofrestrau risgiau corfforaethol
Cyfweliadau	<p>Gwnaethom gyfweled â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau Oedolion, Caerdydd;• Uwch Nyrs, Rhyddhau Integredig; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro• Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg;• Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chynghrair y Fro;• Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Caerdydd;• Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cymunedol Oedolion, Caerdydd a Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Byw'n Annibynnol, Caerdydd;• Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Aciwt; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro• Pennaeth Gweithrediadau Llif Cleifion a Gwasanaethau Safle; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro• Pennaeth Gofal Integredig; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Elfen o'r dulliau archwilio	Disgrifiad
	<ul style="list-style-type: none"> • Rheolwr Rhaglen Gwella Gwasanaethau; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro • Prif Swyddog Gweithredu; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro • Arweinydd BPRh; • Cyfarwyddwr Gweithrediadau; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro • Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrso; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro • Arweinydd Gweithredol Cynllunio Strategol; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro • Prif Swyddog y Cyngor Iechyd Cymuned; • Rheolwr Rhaglen ar gyfer Chwe Nod. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Arsylwadau	<p>Gwnaethom arsylwi ar y cyfarfod(ydd) canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod gwelyau, Ysbyty Athrofaol Cymru • Grŵp Arweinyddiaeth Strategol • Bwrdd Rhaglen @Gartref • Tîm Rheoli Integredig Rhanbarthol <p>Gwnaethom hefyd arsylwi ar yr unigolion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cydlynnydd Rhyddhau
Dadansoddi data	<p>Gwnaethom ddadansoddi'r data cenedlaethol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Set ddata fisol ar y gwasanaethau cymdeithasol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru; • Set ddata fisol ar achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion a gyflwynwyd i Weithrediaeth y GIG; • Data StatsCymru; • dangosyddion gwasanaethau ambiwlans. <p>Gwnaethom hefyd ddadansoddi data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r holl gleifion meddygaeth argyfwng a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 gyda hyd arhosiad a oedd yn fwy na 21 diwrnod (ac eithrio'r rhai a fu farw).</p>
Grwpiau ffocws	<p>Gwnaethom gynnal grwpiau ffocws gyda gweithwyr cymdeithasol o bob un o ardaloedd yr awdurdodau lleol.</p>

Elfen o'r dulliau archwilio	Disgrifiad
Adolygu nodiadau achosion	Gwnaethom adolygu sampl o 20 o nodiadau achosion mewn perthynas â chleifion meddygaeth argyfwng a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 gyda hyd arhosiad a oedd yn fwy na 21 diwrnod (ac eithrio'r rhai a fu farw).

Atodiad 2

Rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi'r rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion yn y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â'r sefyllfa ledled Cymru gyfan.

Arddangosyn 12: rhesymau dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oedi (Chwefror 2024)

Rheswm dros yr oedi	Canran lle bu oedi	Cyfartaledd Cymru Gyfan
Yn aros am asesiad gofal cymdeithasol	31.5	15.7
Yn aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu	15.5	8.5
Yn aros am gwblhau trefniadau cyn lleoli	10.9	3.5
Yn aros am asesiad ar y cyd	4.6	9.0
Yn aros i asesiad clinigol gael ei gwblhau (nyrsio/gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd/meddygol/fferylliaeth)	4.2	10.3
Yn aros i becyn gofal cartref newydd ddechrau	4.2	8.0
Claf/teulu yn gwrthod symud i gam nesaf y gofal/y broses ryddhau	3.4	1.6
Yn aros am drosglwyddiad i gyfleuster gwely gofal canolraddol	2.9	4.0
Oedi yn y Llys Gwarchod	2.9	0.6
Dim preswylfa addas	2.1	2.3
Aros am argaeledd gofal ychwanegol/byw â chymorth	1.7	0.9
Yn aros i reolwr cartref gofal preswyl ymweld ac asesu (Safon 3 preswyl)	1.7	2.1
Yn aros i'r pecyn gofal cartref blaenorol aildechrau	1.7	0.5
Digartref	1.7	0.9
Yn aros am asesiad gofal iechyd parhaus (CHC)	1.3	1.7
Galluedd meddyliol	1.3	2.1
Materion yn ymwneud â dewis y claf/teulu	1.3	0.9

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Noder: lle mae'r rhesymau dros yr oedi yn ymwneud â dau glaf neu lai, mae'r rhain wedi cael eu hepgor i leihau unrhyw risg o adnabod cleifion unigol.

Pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fesul awdurdod lleol

Mae'r arddangosion canlynol yn nodi'r pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol o'i gymharu â'r sefyllfa ledled y Bwrdd Iechyd a Chymru gyfan.

Arddangosyn 13: pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oedi (Chwefror 2024) – Caerdydd

Rheswm dros yr oedi	Canran lle bu oedi	Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd	Cyfartaledd Cymru Gyfan
Yn aros am asesiad gofal cymdeithasol	30.9	31.5	15.7
Yn aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu	15.4	15.5	8.5
Yn aros am gwblhau trefniadau cyn lleoli	9.9	10.9	3.5
Yn aros i asesiad clinigol gael ei gwblhau (nyrsio/gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd/meddygol/fferylliaeth)	4.9	4.2	10.3
Yn aros i becyn gofal cartref newydd ddechrau	4.3	4.2	8.0

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 14: pum prif reswm dros oedi cyn rhyddhau cleifion fel canran o'r holl achosion o oedi (Chwefror 2024) – Bro Morgannwg

Rheswm dros yr oedi	Canran lle bu oedi	Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd	Cyfartaledd Cymru Gyfan
Yn aros am asesiad gofal cymdeithasol	35.1	31.5	15.7
Yn aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu	16.2	15.5	8.5
Yn aros am gwblhau trefniadau cyn lleoli	12.2	10.9	3.5
Yn aros am asesiad ar y cyd	6.8	4.6	9.0
Yn aros i becyn gofal cartref newydd ddechrau	5.4	4.2	8.0


Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Atodiad 3

Perfformiad gofal brys ac mewn argyfwng


Mae'r arddangosion canlynol yn nodi perfformiad y rhanbarth ar draws ystod o ddangosyddion perfformiad gofal brys ac mewn argyfwng o'i gymharu â'r sefyllfa ledled Cymru ers mis Ebrill 2022.

Arddangosyn 15: canran yr ymatebion brys i alwadau coch sy'n cyrraedd o fewn (hyd at ac yn cynnwys) wyth munud – targed cenedlaethol o 65%




Ffynhonnell: StatsCymru

Arddangosyn 16: amser ymateb canolrif ar gyfer galwadau oren (cofnodion) – 50fed canradd – targed cenedlaethol o 20 munud




Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwylans

Arddangosyn 17: canran y trosglwyddiadau ambiwlans o fewn 15 munud mewn adran achosion brys mawr – targed cenedlaethol o 100%




Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwylans

Arddangosyn 18: canran y trosglwyddiadau ambiwlans dros awr – targed cenedlaethol o sero




Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwllans

Arddangosyn 19: cyfanswm nifer yr oriau a gollwyd yn dilyn hysbysiad i drosglwyddo dros 15 munud




Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwllans

Arddangosyn 20: amser canolrif (munudau) o gyrraedd adran achosion brys i frysbennu gan glinigwr – targed cenedlaethol o ostyngiad o 12 mis




Ffynhonnell: Adroddiadau perfformiad y Bwrdd Iechyd

Arddangosyn 21: amser canolrif (munudau) o gyrraedd adran achosion brys i gael asesiad gan uwch-benderfynwr clinigol – targed cenedlaethol o ostyngiad o 12 mis




Ffynhonnell: Adroddiadau perfformiad y Bwrdd Iechyd

Arddangosyn 22: canran y cleifion sy'n treulio llai na phedair awr mewn adran achosion brys mawr – targed cenedlaethol o 95%




Ffynhonnell: StatsCymru

Arddangosyn 23: canran y cleifion sy'n treulio llai na 12 awr mewn adran achosion brys mawr – targed cenedlaethol o 100%



Ffynhonnell: StatsCymru

Arddangosyn 24: canran cyfanswm y diwrnodau gwely brys a gronwyd gan bobl â hyd arhosiad dros 21 diwrnod – targed cenedlaethol o ostyngiad o 12 mis




Ffynhonnell: Adroddiadau perfformiad y Bwrdd Iechyd

Atodiad 4

Arosiadau am asemiadau gofal cymdeithasol a phecynnau gofal


Mae'r arddangosion a canlynol yn nodi perfformiad aros y rhanbarth ar gyfer asemiadau gofal cymdeithasol a derbyn amrywiaeth o becynnau gofal o gymharu â'r sefyllfa ledled Cymru ers mis Tachwedd 2022.

Arddangosyn 25: nifer yr oedolion sy'n aros am asemiad gofal cymdeithasol (fesul 100,000 o'r boblogaeth)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 26: nifer yr oedolion sy'n aros am ofal cartref (fesul 100,000 o'r boblogaeth)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 27: nifer yr oedolion sy'n aros am ail-alluogi (fesul 100,000 o'r boblogaeth)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 28: nifer yr oedolion sy'n aros am lety cartref gofal hirdymor (fesul 100,000 o'r boblogaeth)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Atodiad 5

Ymateb sefydliadol ar y cyd i'r argymhellion archwilio

Arddangosyn 29: ymateb sefydliadol ar y cyd

Cyf	Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A1	Er mwyn helpu i lywio trafodaethau ynghylch rhyddhau cleifion, dylai'r awdurdodau lleol nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chpasiti gofal cymdeithasol o ran darparu gwasanaethau ar lefel leol a rhanbarthol, gan gynnwys yr effaith ar lif cleifion o'r ysbyty.	<p>i. Caiff capasiti ei fonitro a'i adrodd i Lywodraeth Cymru bob mis drwy ddwy ffordd:</p> <ul style="list-style-type: none">• Data pwynt gwirio gofal cymdeithasol sydd â sgôr Coch Melyn Gwyrdd• Cyfarfodydd rhanbarthol PoCD sy'n ymwneud yn uniongyrchol â llif ysbytai <p>Yna gellir uwchgyfeirio materion drwy lywodraethu lleol neu ranbarthol.</p> <p>ii. Mae gan Awdurdodau Lleol drefniadau monitro a rheoli risg mewnol presennol.</p> <p>iii. Mae'r BPRh yn cynnal Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad bob pum mlynedd i roi gwybod i</p>	Eisoes ar waith	Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Awdurdodau Lleol

Cyf	Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
		<p>gomisiynwyr gofal am ddigonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad gofal cymdeithasol. Mae Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol ar waith i fonitro capasiti a mynd i'r afael â materion a nodwyd.</p>		
A2	<p>Dylai'r Bwrdd lechyd, gan weithio gydag awdurdodau lleol, ddiweddarau ei bolisi rhyddhau cleifion a'i bolisiâu cysylltiedig, gan gynnwys y polisi dewis llety, i egluro i'r holl staff sut y dylai'r broses cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion weithio ar draws y rhanbarth. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023, gan nodi rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir, a disgwyliadau, ac adlewyrchu'r model Rhyddhau i Adfer yna Asesu. Dylai'r broses ar gyfer diweddarau'r polisi gynnwys cleifion a gofalwyr.</p>	<p>i. Mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu polisi rhyddhau newydd i gynnwys yr elfennau allweddol o'r canllawiau rhyddhau cenedlaethol diweddaraf ym mis Medi 2024. Mae'r polisi'n cael ei ddatblygu gyda mewnbwn gan awdurdodau lleol.</p> <p>ii. Bydd y polisi'n cael ei adolygu gan y trefniadau llywodraethu partneriaeth drwy'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol.</p> <p>iii. Gofynnir am gyngor a chefnogaeth gan Llais ar gynnwys cleifion a gofalwyr.</p>	Ebrill 2025	Pennaeth Rhyddhau Integredig

Cyf	Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A3	Dylai'r Bwrdd lechyd sefydlu cylch archwilio rheolaidd i asesu effeithiolrwydd a chysondeb y ffordd y cymhwysir y polisi rhyddhau a'r rhaglenni hyfforddi cysylltiedig.	Bydd y Bwrdd lechyd yn cwblhau llinell sylfaen gan ddefnyddio'r offeryn archwilio ar wardiau, Tendable, cyn mabwysiadu'r polisi newydd ac yna'n adolygu'n fisol i asesu'r effaith.	Mehefin 2025	Pennaeth Rhyddhau Integredig
A4	Dylai'r Bwrdd lechyd wella'r drefn cadw cofnodion drwy: 4.1 sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion yn deall yn llawn bwysigrwydd dogfennu gwybodaeth gynhwysfawr mewn nodiadau achos cleifion i gefnogi cynlluniau rhyddhau effeithiol. 4.2 sefydlu rhaglen o archwiliadau nodiadau achos yn canolbwyntio ar ansawdd cadw cofnodion.	i. Mae hyn yn cael ei ymgorffori yn y rhaglen dreigl o addysg ar gyfer timau wardiau. Yn ogystal, mae cynllun peilot ar y gweill lle mae llyfryn rhyddhau yn cael ei dreialu ar y ward gaeaf yn YALI i gefnogi dogfennaeth glir o brosesau rhyddhau yn nodiadau achos cleifion. ii. Bydd y Bwrdd lechyd yn asesu'r offer a'r prosesau gorau ar gyfer archwilio cadw cofnodion ac, os yw'n briodol, yn cyflwyno hyn gyda chylchoedd hyfforddi ac archwilio parhaus.	Mehefin 2025	Pennaeth Rhyddhau Integredig
A5	Dylai'r Bwrdd lechyd, mewn partneriaeth â'i awdurdodau lleol, sicrhau bod ganddo'r trefniadau	Mae meddygon ymgynghorol yn gweithio saith diwrnod yn yr ôl troed aciwt ar waith erbyn hyn i gefnogi'r	Eisoes ar waith	Prif Swyddog Gweithredu

Cyf	Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	<p>angenrheidiol ar waith i sefydlu a darparu dull saith diwrnod o weithio'r wythnos o ryddhau cleifion o'r ysbyty er mwyn lleihau arosiadau diangen yn yr ysbyty.</p>	<p>broses o ryddhau cleifion ar y penwythnos. Yn ogystal, mae gweithgor saith diwrnod wedi'i sefydlu i ymgorffori'r gwelliannau ac i geisio datblygu hyn ymhellach fel rhan o fenter her 50 diwrnod y gaeaf y gweinidog.</p>		
A6	<p>Dylai'r rhanbarth sicrhau bod ei gynllun gweithredu ar gyfer llwybrau gofal yn gliriach ynghylch y canlyniadau a fwriedir o'r camau gweithredu y mae wedi'u nodi. Dylai hefyd gynnal adolygiad rheolaidd i asesu a yw canlyniadau'n cael eu cyflawni.</p>	<p>i. Mae cynllun gweithredu POCD manwl ar waith.</p> <p>ii. Mae cynllun gweithredu POCD yn cael ei adolygu bob mis drwy fforwm partneriaeth lleol ac yn cael ei adolygu bob chwarter gan Lywodraeth Cymru yn unol â blaenoriaethau Ysgrifennydd Cabinet y Pwyllgor Gweithredu Gofal.</p> <p>iii. Mae'r Pwyllgor Gweithredu Gofal yn adolygu'r effaith a'r canlyniadau a gyflawnir gan y cynllun bob mis fel un o'i dair blaenoriaeth genedlaethol.</p> <p>iv. Mae tîm cenedlaethol y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Mewn</p>	Eisoed ar waith.	Pennaeth Rhyddhau Integredig

Cyf	Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
		<p>Argyfwng yn cynnal adolygiad manwl o ddata POCD gyda'r tîm lleol ac yn cefnogi'r broses o nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn lleol. Byddwn yn parhau â'r trefniadau llywodraethu hyn ac yn monitro'r effaith yn barhaus.</p> <p>v. Mae effaith y cynllun gweithredu a data cysylltiedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd drwy drefniadau llywodraethu partneriaeth.</p>		
A7	<p>Er mwyn helpu i lywio penderfyniadau a thrafodaethau, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fynediad arferol at ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n berthnasol i lif effeithiol ac amserol allan o'r ysbyty, gan gynnwys perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng o fewn y Bwrdd Iechyd, a rhestrau aros ar gyfer</p>	<p>i. Ar hyn o bryd mae data POCD yn cael ei rannu'n rheolaidd â Grŵp Arwain Strategol y BPRh drwy adroddiadau rhaglen benodol a briffiau blaenoriaeth CAC. ii. Bydd tîm y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adolygu'r dangosyddion perfformiad allweddol a gasglwyd eisoes ac yn sicrhau eu bod yn cael eu rhannu yn y fforymau priodol.</p>	Ebrill 2025	Cyfarwyddwr Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cyf	Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	gwasanaethau cymdeithasol a phecynnau gofal.			

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Partneriaid Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.